# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Cyfarfod Microsoft Teams

**Dyddiad y cyfarfod:** 7 Mawrth 2022

**Yn bresennol**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Ruth Jenkins, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

Martyn Evans, CNC

John Browne, CNC

Bernard Griffiths, FUW

Tim Kirk, Confor

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

**Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:**

Miriam Jones-Walters, CNC (Eitem 3)

Eifion Jones, CNC (Eitem 3)

Keith Davies, CNC (Eitem 4)

Rhianne Jones, CNC (Eitem 5)

Evelyn Over, CNC (Eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth(au)**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Bob Vaughan, CNC

Vicky Jones, Llywodraeth Cymru

Fraser McAuley, Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf 2022 gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.

3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl cwblhau cofnodion y cyfarfod.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

4. Ar ôl i'r cofnodion gael eu hadolygu ac ar ôl cytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y Grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021. Tynnwyd sylw at rai pethau yr oedd angen eu hegluro, a bydd y rhain yn cael eu cynnwys. Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

5. Nid oedd unrhyw 'gamau heb eu cymryd' i'w trafod.

***PG Mawrth 01: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu'r ymateb i ymholiad Dennis Matheson ynghylch helfeydd dilyn trywydd.***

6. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw beth arall i'w drafod ynglŷn â'r wybodaeth yn y Papur Diweddaru. Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

## Eitem 3 Safle'r Goedlan Goffa yn Brownhill

7. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Miriam Jones-Walters, CNC i'r cyfarfod i gyflwyno trosolwg a diweddariad o safle'r Goedlan Goffa yn Brownhill.

8. Mae Miriam yn Gynghorydd Arbenigol ar Stiwardiaeth Tir yn nhîm Cynllunio Ystadau CNC. Dywedodd Miriam fod y Prosiect Coedlannau Coffa yn rhan o raglen ehangach o'r enw 'Cynnal a chadw coetiroedd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru'.

9. Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, gan bennu targedau ar gyfer creu coetiroedd yng Nghymru – oddeutu 43,000 hectar o goetiroedd erbyn 2030 a 180,000 hectar erbyn 2050 er mwyn helpu Cymru i gyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon. Mae CNC yn cyfrannu at hyn mewn nifer o ffyrdd, ond y brif ffordd o gyflawni'r targedau hyn yw cael ffermwyr a rheolwyr tir i greu coetiroedd. Fel rheolwr tir Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, mae CNC o'r farn fod y tir sydd o dan ei ofal yn cyfrannu at yr ymdrech genedlaethol i greu coetiroedd. Hefyd, mae CNC wedi ymrwymo i wneud iawn am y gorchudd coetir a gollwyd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

10. Rhannodd Miriam graff yn nodi'r tueddiadau/rhagolygon mewn perthynas â choetiroedd ar yr ystâd a reolir gan CNC, rhwng 2013 a 2043.

11. Cyflwynodd Miriam drosolwg o'r modd y bydd CNC yn cyrraedd y targedau. Mae prynu tiroedd ffermio yn un ffordd a ddefnyddir gan CNC i fynd i'r afael â'r gwaith hwn, ond un elfen yn unig yw hon. Mae CNC eisoes yn rheoli neu'n berchen ar rai darnau o dir nas plannwyd a bydd yn ystyried pa mor addas ydynt ar gyfer eu plannu. Hefyd, mae CNC yn awyddus i weithio gydag eraill neu gyda chyrff cyhoeddus, gan ystyried tiroedd cyhoeddus eraill a allai fod yn addas i blannu coetiroedd arnynt. Pan mae CNC yn mynd ati i brynu tir, mae'n dryloyw ac mae'n ceisio peidio â chystadlu'n ffyrnig yn y farchnad. Disgrifiodd Miriam ddull CNC o brynu tir. Yn gyntaf, mae'n sicrhau y bydd modd iddo greu coetir ar y tir o dan sylw, yn unol â Safon Coedwigaeth y DU; ac yn ail, mae'n ystyried pa amcanion y gellir eu gwireddu (e.e. cynhyrchu pren, manteision lluosog ac ati).

12. Y llynedd, bu CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Prosiect Coedlannau Coffa. Roedd Prif Weinidog Cymru yn dymuno gwneud rhywbeth cadarnhaol a chreu cofeb barhaol i'r bobl a gollodd eu bywydau yn ystod COVID-19, yn ogystal â chreu symbol o'r modd y llwyddodd trigolion Cymru i ymdopi â'r argyfwng. Dywedodd Miriam mai un peth a ddaeth i'r amlwg drwy gydol hyn oedd pa mor bwysig yw mannau gwyrdd hygyrch a diogel i bawb. Felly, byddai coetir yn gofeb addas iawn.

13. Mae safle Brownhill oddeutu 94 hectar o faint ac fe'i dewiswyd am sawl rheswm, yn cynnwys hygyrchedd da. Hefyd, mae yna nifer o bethau y gallai'r safle eu cyflawni o ran creu coetir. Dangosodd Miriam rai mapiau o'r safle yn dangos pob un o'r tair lot a brynodd CNC, a disgrifiodd y gwahaniaeth rhwng y tair.

14. Dywedodd Miriam fod CNC yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch y cynlluniau ar gyfer y safle, ond y byddant yn ôl pob tebyg yn cynnwys mynedfa gyhoeddus, maes parcio a meinciau. Cynhelir digwyddiad ymgynghori ar gyfer y gymuned leol yn y neuadd bentref leol, a hefyd ceir ymgynghoriad cyhoeddus ar Citizen Space yn ymwneud â'r cynlluniau ar gyfer gweddill y safle. Dangosodd Miriam rai lluniau o'r tir, fel y mae ar hyn o bryd.

15. Holodd John Browne, CNC am y ffordd y bydd y safle'n cael ei reoli. Yn amlwg, y canolbwynt fydd creu coetir, ond yn y pen draw y peth pwysig yw'r modd y rheolir y safle hwn wedi hynny ar gyfer newid defnydd tir yn y tymor canolig i'r tymor hir, megis creu coetir. Y tu hwnt i'r cyswllt cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol, preswylwyr a chymdogion, beth fydd CNC yn ei wneud i sicrhau rheolaeth y safle yn yr hirdymor. Dywedodd Miriam fod y rhaglen wedi'i chreu er mwyn sefydlu'r coetir, ac yn nhermau coedwigaeth bydd hynny'n cymryd pum mlynedd – er, mewn gwirionedd, bydd angen llawer mwy o amser i'r coetir ymsefydlu. Bydd tîm prosiect yn gofalu am y safle am

bum mlynedd; yna, bydd yn dod yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a bydd timau ardal lleol yn ei reoli. Mae hyn yn rhan o’r ymgynghoriad, a bydd tîm y prosiect yn siarad â chymunedau lleol. Dywedodd Miriam fod CNC yn gobeithio gweld diddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith rheoli yn yr hirdymor, ond mae’n debyg y bydd hyn yn dibynnu ar union ffurf y cynlluniau yn y diwedd.

16. Gofynnodd Hedd Pugh, NFU Cymru, pwy sy’n penderfynu y dylid prynu’r tir a pha un a yw’r penderfyniad yn mynd gerbron Bwrdd CNC cyn i’r pryniant gael ei gymeradwyo. Dywedodd Miriam fod y rhaglen gyffredinol wedi cael ei chyflwyno gerbron Bwrdd CNC mewn perthynas â beth yw’r uchelgais, a bydd tîm y prosiect yn parhau i rannu gwybodaeth gyda’r Bwrdd drwy gydol y broses. Rydym wedi cael cymeradwyaeth i greu 350 hectar o goetiroedd newydd i wneud iawn am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, ond bydd hyn yn mynd gerbron Bwrdd CNC er mwyn trafod sut gellir bwrw ymlaen â’r mater yn y dyfodol. O ran y penderfyniadau a wneir fesul safle, dywedodd Miriam fod gennym broses fewnol yn CNC – achos busnes, yn y bôn – lle rydym yn ymgynghori gyda thimau amrywiol er mwyn llunio achos ynghylch a ydym yn dymuno prynu’r tir, beth fydd yr amcanion, beth yw’r cyfyngiadau, beth yw’r cyfleodd ac ati.

17. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru a fydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn dilyn y trafodaethau gyda Phrif Weinidog Cymru ynghylch creu coedlan goffa COVID-19. Dywedodd Miriam na fydd ymgynghoriad o’r fath yn cael ei gynnal; menter oedd hon. Awgrymodd Rachel y byddai rhai cymunedau, o bosibl, yn dymuno cael rhyw fath o gofeb yn eu hardal nhw, yn hytrach na chael tri neu bedwar safle yn unig ledled Cymru.

    Gofynnodd Rachel a fyddai modd i CNC rannu ei bolisi ynghylch caffael tir. Dywedodd Miriam y byddai hynny’n bosibl ac y gallwn rannu’r dull a ddefnyddiwn wrth brynu tir.

***PG02 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i rannu gwybodaeth gan Miriam Jones-Walters, CNC ynghylch dull CNC o brynu tir.***

Gofynnodd Rachel a oedd gan Miriam unrhyw ystadegau’n nodi pa gyfran o ddalgylch Tywi sydd eisoes yn cael ei rheoli gan Ystad Goetir Llywodraeth Cymru neu sydd eisoes yn rhan o’r Ystad, ac sydd wedi’i choedwigo. Dywedodd Miriam nad oedd yr ystadegau hyn ganddi wrth law.

18. Gofynnodd Zoe a fyddai’r goedlan goffa yn gorchuddio’r 94 hectar i gyd, ynteu safle chwech yn unig. Dywedodd Zoe fod ganddi gof y bydd yr ardal bori barhaol yn cael ei defnyddio wedyn i greu’r coetir a’r maes parcio. Dywedodd Miriam fod yr ardal yn rhan isaf y safle yn 15 hectar a bod y cynlluniau ar gyfer yr ardal honno wedi cael eu datblygu rywfaint mwy. Bydd coetir llydanddail brodorol yn cael ei blannu yn y fan honno, mae’r mynediad a geir yno ar hyn o bryd yn well ac mae’n fwy addas ar gyfer creu coetir amwynder. Dywedodd Miriam nad ydynt yn diffinio ardaloedd fel ‘ardaloedd coffa’ neu ‘ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd coffa’, ond mae yna lawer o waith i’w wneud ar gynlluniau’r ardaloedd sy’n weddill.

19. Cydnabu Anthony Geddes, Confor y gwaith enfawr sydd ar droed i greu’r safle hwn. Soniodd Anthony am ganllawiau ar gyfer rhaglenni tebyg i Glastir – Creu Coetir a holodd a yw CNC yn cyflawni hyn am £2000 ar gyfer y cynllun a llai na £5000 ar gyfer yr holl waith arolygu amgylcheddol a’r holl waith cynllunio, gan mai dyna sy’n rhaid i’r

sector preifat ei wneud. Gofynnodd Anthony a yw hyn yn cyd-fynd â'r Goedwig Genedlaethol – ac os felly, sut – oherwydd ymddengys fod yna ddyblygu, a mynegodd bryderon ynghylch defnyddio adnoddau cyfyngedig ar gyfer 'prosiectau anwes'. Dywedodd Miriam ein bod wedi colli coetiroedd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac mai'r man cychwyn felly yw ein bod yn gwneud iawn am hyn ac yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at yr ymdrech genedlaethol i blannu coed. Ar raddfa'r ymdrech genedlaethol, bach iawn yw hyn yn ôl Miriam; ac o ran adnoddau CNC, mae Miriam yn arwain y rhaglen gydag un aelod arall o staff amser llawn, a chaiff hyn ei ariannu gan ffi opsiwn o du datblygiadau ynni adnewyddadwy ynghyd â rhai ffrydiau cyllido eraill.

20. O ran yr ymgynghoriad, dywedodd Martyn Evans, CNC fod CNC wedi ysgrifennu at Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol, rhai cynghorwyr ac arweinwyr allweddol, ynghyd â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Gâr, a'i fod wedi gwneud ambell alwad ddilynol hefyd. Cynhelir digwyddiad ymgysylltu gyda'r gymuned y dydd Mercher hwn yn neuadd y gymuned. Mae CNC wedi nodi'r hyn y credwn sy'n bosibl ar y safle hwn, ond bydd ymgynghoriad agored yn cael ei gynnal.

21. Soniodd Ruth Jenkins am y ffaith fod Rachel wedi dweud y gallai cymunedau eraill fod o'r farn na fydd y tri neu'r pedwar safle o dan sylw yn diwallu'r angen ar gyfer eu cymunedau nhw. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud pethau eraill hefyd ac yn cefnogi gwaith plannu coed unigol a chymunedol trwy gyfrwng prosiectau eraill. Gofynnodd Ruth a oedd Rachel o'r farn fod cyfle yn cael ei golli i gysylltu rhai o'r pethau hynny, a gofynnodd a yw pobl yn sôn am awgrymiadau neu gyfleoedd i wneud pethau ar raddfeydd gwahanol mewn cymunedau er mwyn coffáu teuluoedd yr effeithiodd COVID-19 arnynt. Dywedodd Rachel nad yw'n rhagdybio ei bod yn gwybod beth mae pobl neu gymunedau yn dymuno'i gael mewn rhannau eraill o Gymru, ond awgrymodd fod hynny yn rheswm dros gynnal ymgynghoriad yn gynnar yn y broses.

22. Dywedodd Ruth fod angen inni fod yn ofalus rhag cyfuno gwahanol faterion. Gellir cyflawni nifer ganlyniadau gwahanol trwy greu coetiroedd. Mae'r agwedd 'goffáu' yn cyflawni canlyniadau penodol i Gymru.

23. Crybwyllodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant bryder ynghylch y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn prynu tir ar gyfer coetiroedd – rhywbeth a fydd yn cystadlu yn erbyn grwpiau ecwiti preifat a fydd yn mynd ati'n frwd i brynu tir at yr un diben, a hynny am brisiau gormodol. Gallai hyn annog perchnogion tir i werthu tameidiau o dir ac fe allai hynny fygwth tenantiaethau gan nad oes unrhyw fesurau diogelu i'w cael.

## Eitem 4 Dynodi'r Parc Cenedlaethol

24. Ymunodd Keith Davies, CNC â'r cyfarfod i gynnig trosolwg byr o'r broses ar gyfer dynodi'r Parc Cenedlaethol.

25. Dechreuodd Keith trwy gynnig trefnu trafodaeth bwrpasol yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf gydag unrhyw sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Rheoli Tir Cymru.

***PG Mawrth 03: Bronwen Martin, CNC i rannu manylion cyswllt Keith Davies, CNC gyda'r aelodau.***

26. Mae Llywodraeth Cymru: Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn cynnwys ymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol Newydd yn ardal Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. CNC

yw’r awdurdod dynodi ac ef sy’n gyfrifol am y broses ddynodi. Os bydd y dystiolaeth yn dangos bod yr ardal yn deilwng o gael ei dynodi’n Barc Cenedlaethol, yna bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gytuno ar y Gorchymyn Dynodi, a’i newid – sef rhywbeth a wneir ar ddiwedd y broses.

27. Mae dynodi Parc Cenedlaethol yn broses gyfreithiol na welir mohoni ond unwaith mewn cenhedlaeth. Mae’n golygu maes gwaith sylweddol a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau. Mae CNC wedi mynd i’r afael â gwaith cyn-gychwyn ac mae hefyd wedi sicrhau bod dulliau llywodraethu mewnol ar waith er mwyn i Fwrdd CNC a thimau eraill allu gwneud penderfyniadau yn ystod gwahanol gamau’r broses. Hefyd, bydd grwpiau rhanddeiliaid yn cael eu ffurfio ar lefel uwch a thechnegol er mwyn i’r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt gael cyfle i gyfrannu ac ymgysylltu.

28. Ymhellach, mae CNC wedi bod yn diweddaru’r canllawiau ar gyfer mynd i’r afael â dynodiad tirwedd newydd. Bydd y canllawiau hyn ar gael maes o law.

29. Fel rhan o’r camau cynnar, cynhaliodd CNC gyfarfodydd anffurfiol gyda’r Awdurdodau Lleol perthnasol er mwyn eu cyflwyno i’r gwaith ac i’r broses.

30. Dangosodd Keith rai mapiau’n dangos lleoliad a maint y dynodiadau.

31. Aeth Keith yn ei flaen i grynhoi’r meini prawf y bydd angen eu bodloni:

- A yw’r ardal gyfan a amgaeir o fewn y terfynau arfaethedig yn bodloni’r meini prawf a’r diben ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol, fel y’u nodir yn Neddf 1949?

Gweler yn arbennig Adran 5(2) sy’n diffinio Parciau Cenedlaethol fel a ganlyn:

- Eangderau helaeth o gefn gwlad
- Mannau o harddwch naturiol
- Mannau sy’n cynnig cyfleoedd ar gyfer hamddena awyr agored, gan ystyried eu cymeriad a’u safle mewn perthynas â chanolfannau poblogaeth

Ac am y rhesymau hynny, byddai’n arbennig o ddymunol eu dynodi er mwyn:

Gwarchod a chyfoethogi eu harddwch naturiol, eu bywyd gwyllt a’u treftadaeth ddiwylliannol; a hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau eu nodweddion arbennig.

32. I gloi, cyflwynodd Keith drosolwg o’r broses ddynodi trwy ddefnyddio diagram gam wrth gam.

33. Gofynnodd Rachel a oedd yna amserlen fras ar gyfer y camau ymgynghori, gan y byddai’n ddefnyddiol i NFU Cymru allu nodi yn ei raglen waith pryd byddai’n ofynnol iddo ymgysylltu â’i aelodau ynglŷn â’r ymgynghoriadau. Dywedodd Keith y byddai modd iddo gynnig amserlen ddangosol ac y byddai’n croesawu cynnal cyfarfod yn y cnawd i drafod sut gallai aelodau lleol gyfrannu at y broses a chymryd rhan ynddi.

Nododd Rachel fod y penderfyniad hwn fel pe bai wedi cael ei wneud ymlaen llaw yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru; felly, ceir awgrym clir fod Llywodraeth Cymru yn dymuno i hyn ddigwydd. Holodd Rachel a oedd yna unrhyw bwrpas casglu

tystiolaeth, ymgynghori ac ymgysylltu gan yr ymddengys fod y penderfyniad wedi cael ei wneud yn barod. Yn ôl Keith, dim ond os bydd y dystiolaeth yn ategu'r achos y bydd modd i CNC fwrw ymlaen â gwahanol gamau'r dynodiad. Bydd CNC yn cynnal proses ar gyfer casglu gwybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â barn gwahanol randdeiliaid, ac yna bydd yn ofynnol iddo benderfynu yn ystod gwahanol gamau'r broses pa un a ddylid bwrw ymlaen â'r dynodiad ffurfiol a chreu Parc Cenedlaethol, ai peidio. Yn y pen draw, ni ellir dynodi'r ardal os na fydd y dystiolaeth yn cadarnhau'r achos y dylai'r ardal honno fod yn Barc Cenedlaethol.

34. Gofynnodd Anthony pa mor gynnar y bydd modd i bobl ymgysylltu â'r broses o gynllunio'r parc. Bydd yn bwysig deall beth yw cylch gwaith CNC a'r hyn mae'n ceisio'i wneud i guradu, hyrwyddo neu ddatblygu'r ardaloedd hyn. Dywedodd Keith fod yn rhaid i CNC ystyried meini prawf, yn cynnwys tystiolaeth, ond bod yn rhaid iddo hefyd gynnwys grymoedd ehangach dros newid – sef grymoedd yn ymwneud â chyfleoedd i ddefnyddio a rheoli'r tir yn y dyfodol. Bydd CNC yn croesawu trafodaethau o unrhyw fath yn ystod gwahanol gamau'r broses fel y gellir trafod sut rydych chi a'ch aelodau yn dymuno ymgysylltu.

35. Dywedodd Tim Kirk, Confor fod rhai pobl yng Nghymru yn cael anhawster i ddelio â'r gwahanol ddynodiadau a'u bod wedyn yn clywed am yr angen biwrocrataidd i sefydlu Parc Cenedlaethol arall. Gofynnodd Tim a oes wir angen Parc Cenedlaethol arall. Dywedodd Anthony ei fod yn gobeithio y bydd y cwestiwn hwn yn cael ei gynnwys yn y broses ymgynghori ac y bydd modd i bobl gael ymateb iddo. Yn wir, gall pobl reoli'r tir mewn modd priodol, pa un a'i dynodir ai peidio. Dywedodd Anthony fod heriau mwy i'w cael, megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), gwaharddiadau gorfodol, Cynllun Glastir a materion eraill a allai fod yn sensitif.

## Eitem 5 Cyflwyniad: Cyfraniad CNC at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

36. Ymunodd Rhianne Jones, CNC â'r cyfarfod i gyflwyno crynodeb o'r gwaith mewnol parhaus a wneir gan CNC i gyfrannu at Gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

37. Mae buddiant CNC yn y maes hwn yn ymwneud â'n dyletswydd i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Mae'n bosibl y bydd y polisi newydd hwn yn effeithio ar oddeutu 90% o'r tir. Bydd angen i CNC weithio'n agos gyda pherchnogion preifat, ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawni hyn ledled Cymru. Aeth Rhianne yn ei blaen i grynhoi rhai o'r ysgogwyr, y pwniadau a'r canlyniadau mewn perthynas â'r fframwaith cyflawni ar gyfer tir nad yw CNC yn ei reoli.

38. Er mwyn inni allu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, rhaid inni ddylanwadu ar Grantiau CNC, y Gronfa Perygl Llifogydd a Gwariant Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Materion Dŵr. Mae'r arian posibl sydd ar gael trwy gyfrwng y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer cefnogi dulliau cynaliadwy o reoli tir a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, oddeutu £250m.

39. Mae CNC wedi sefydlu ei raglen fewnol ei hun ar gyfer ymadael â'r UE, ac ers dwy flynedd bellach mae prosiect wedi bod ar waith i archwilio'r pwnc hwn. Llwyddodd y prosiect ymgysylltu mewnol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i sefydlu ffordd

newydd o weithio trwy ddefnyddio matrics. Diben y gwaith oedd sicrhau bod CNC yn dwyn ynghyd wybodaeth eang mewn modd hynod benodol ac integredig. Ceir grŵp craidd o aelodau, ac yna mae'r grŵp hwn yn sianel uniongyrchol ar gyfer timau perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Hefyd, ceir grŵp technegol, ac mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o'r holl feysydd perthnasol – polisi, gweithrediadau neu reoleiddio. Yna, mae'r holl feysydd busnes a chanddynt fuddiant yn y maes gwaith hwn yn rhan o'r grŵp technegol, a'u diben yw mynegi eu barn a chyfannu eu harbenigedd technegol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â CNC gyda chwestiynau penodol, gall CNC gyflwyno ateb gydag un llais.

40. Mae'r dull gweithio lle defnyddir matrics cydgysylltiedig yn effeithlon ac yn effeithiol iawn gan ei fod yn tynnu sylw at lu o feysydd lle ceir gorgyffwrdd o ran gwahanol fuddiannau'r timau polisi. Caiff yr holl brosiect ei gynnal o dan y rhwystr 'swyddogol – sensitif' – golyga hyn y bydd CNC yn cael trafodaethau cychwynnol cynnar eithaf anodd gyda Llywodraeth Cymru, o bosibl.

41. Dros y deunaw mis diwethaf, mae CNC wedi cynnal gweithdai ac archwiliadau dwfn mewnol gyda meysydd gwasanaethau ecosystemau a meysydd polisi perthnasol ledled CNC. Ymunodd Llywodraeth Cymru â'r trafodaethau hynny hefyd. Mae CNC wedi rhannu sylwadau a gwybodaeth ddyfnach gyda Llywodraeth Cymru a llwyddwyd i gynnal ambell un o'r trafodaethau cynnar hynny y tu ôl i'r llenni. Un allbwn a ddeilliodd o'r cydweithredu mewnol fu datblygu set ddata ganolog, a elwir yn 'SFS intervention spreadsheet'.

42. Ar hyn o bryd, mae gan CNC ddarlun lefel uchel, manwl iawn o'r mathau o bethau y gallai'r cynllun eu hystyried o ran sut i Reoli Tir yn Gynaliadwy a sut i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Caiff hyn ei brofi wedyn mewn perthynas â'r gwahanol feysydd polisi a'r gwahanol feysydd busnes yn CNC.

43. Dywedodd Rhianne fod CNC yn dymuno siarad â rhanddeiliaid allanol gyda'r bwriad o ddechrau cynnal y trafodaethau cynnar hynny a dechrau rhannu rhywfaint o'n syniadau. Rhywbeth pwysig arall y bydd angen ei wneud yw cynnal trafodaethau manwl ynglŷn â meysydd sy'n peri pryder i chi a gweld ble yn union y ceir meysydd cyffredin.

44. Dywedodd Rhianne fod y gwaith hwn wedi'i rannu erbyn hyn gyda Llywodraeth Cymru, a rhoddodd fraslun o amserlenni Llywodraeth Cymru/CNC. Cyflwynodd Rhianne drosolwg o amserlen prosiect Cynllun Ffermio Cynaliadwy CNC, yn cynnwys camau gweithredu mewnol ac allanol.

45. Dywedodd Dennis ei bod hi'n braf gweld tystiolaeth o gydweithio rhwng gwahanol adrannau a Llywodraeth Cymru. Dywedodd ei fod yn cofio gweld papurau mewn cyfarfod a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid ym mis Chwefror lle cafwyd cyflwyniad gan Keith Watts, Llywodraeth Cymru, yn sôn am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Soniodd Dennis am brosiect a ddatblygir i gynnwys 'statws priddoedd' fel un o'r taliadau 'nwyddau cyhoeddus' yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cynigia'r prosiect y dylid ystyried Cynlluniau Rheoli Maethynnau fel 'nwydd cyhoeddus' y byddech yn cael tâl amdano, ond caiff hyn ei gynnwys eisoes yn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Gofynnodd Dennis a yw Llywodraeth Cymru yn dweud yn awr ei bod yn dymuno i Gynlluniau Rheoli Maethynnau fod yn nwydd cyhoeddus y cewch dâl amdano, yn hytrach nag yn Rheoliad lle cewch eich cosbi am beidio â'i wneud. Mewn

perthynas â thenantiaid, nid estynnwyd gwahoddiad i Gymdeithas y Ffermwyr Tenant, ond cynigir contract pum mlynedd i wella priddoedd – sef rhywbeth a fydd yn eithrio'r rhan fwyaf o denantiaethau busnes fferm yng Nghymru yn syth. Dywedodd Rhianne mai un maes diddordeb allweddol i CNC ar hyn o bryd yw'r ffaith nad oes gennym mewn gwirionedd unrhyw reoliad sylfaenol mewn perthynas â phriddoedd, nac ychwaith ddarlun cydlynus ar gyfer rheoli pridd. Felly, dyma fwlch a nodwyd. Mae pridd ynghlwm wrth bethau eraill fel newid hinsawdd, iechyd pridd a Chynlluniau Rheoli Maethynnau. Mae CNC wedi gofyn i Lywodraeth Cymru bennu hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y cynllun, ond mae pobl yn ymlafnio â sut yn union y dylid trin pridd.

## Eitem 6 Diweddariadau CNC

46. Dywedodd y Cadeirydd fod Papur Diweddaru wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod a'i fod yn cynnwys dolenni ar gyfer gwybodaeth bellach. Gofynnodd Zoe a oedd gan yr aelodau unrhyw adborth neu sylwadau'n ymwneud â'r eitemau yn y ddogfen.

47. Yn ychwanegol at y pynciau y sonnir amdanynt yn y Papur Diweddaru, soniodd Ruth Jenkins am Ben-blwydd Llwybr yr Arfordir yn 10 oed. Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi ffurfio grŵp bach ochr yn ochr â phen-blwydd Llwybr yr Arfordir yn 10 oed i adolygu Llwybr yr Arfordir ac ystyried cyfleodd yn y dyfodol. Mae'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn yn dynn iawn.

***PG04 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu gwybodaeth yn ymwneud ag Adolygiad Llwybr yr Arfordir.***

48. Dywedodd Zoe fod Rachel wedi awgrymu 'Ailgyflwyno Afancod' fel pwnc y gellid ei drafod; ond oherwydd gwyliau blynyddol, nid oedd neb ar gael i fynychu'r cyfarfod a rhoi'r diweddaraf inni. Os oes gan bobl gwestiynau penodol y dymunant gael atebion manwl iddynt, dylid eu hanfon at y tîm fel y gellir ymchwilio ac ymateb iddynt. Dywedodd Rachel mai sefyllfa siomedig oedd methu â chael gafael ar neb i ddod i siarad gyda ni heddiw. Soniodd Rachel ei bod wedi cysylltu gyda Bronwen i ofyn am gynnal cyfarfod penodol gan fod hwn yn faes sy'n destun pryder mawr gyda'r tebygolrwydd y bydd cais yn cael ei roi gerbron i ailgyflwyno afancod yn Afon Dyfi. Byddai cyfarfod o'r fath yn cynnig cyfle i egluro'r broses ymgeisio, ond hefyd byddai modd cynnal trafodaeth gyda CNC ynglŷn â'i safbwynt polisi a'r anawsterau posibl a allai godi nid o fewn oes prosiect, ond y tu hwnt i hynny, 10-15 mlynedd yn y dyfodol (megis afancod yn dianc neu gynnydd yn y boblogaeth), a pha un a oes modd dysgu gwersi ar sail profiadau'r Alban. Awgrymwyd y gallai CNC archwilio'r posibilrwydd o ffurfio gweithdy ar wahân i ystyried hyn, gan wahodd cydweithwyr o NatureScot er mwyn clywed eu safbwyntiau. Dywedodd Ruth fod Sarah Woods ar wyliau yr wythnos hon ac mai dyna pam y methodd â mynychu'r cyfarfod; ond dywedodd ei bod yn dymuno cynnal trafodaeth o'r fath. Yn ôl Ruth, nid yw CNC wedi cael unrhyw gais byw ar hyn o bryd, ond mae'n deall bod a wnelo'r mater â mwy na deall y broses ymgeisio yn unig.

49. Dywedodd Rachel fod y Papur Diweddaru yn cyfeirio at y Fforwm Pysgodfeydd, ac y cynigir rhannu papurau neu gofnodion y cyfarfodydd hynny. Dywedodd Rachel y byddai'n ddiolchgar pe bai modd iddi gael copi o'r cofnodion diweddaraf.

***PG05 Mawrth: Bronwen Martin i ddosbarthu cofnodion diweddaraf Fforwm Pysgodfeydd Cymru.***

50. Dywedodd Martyn Evans, CNC fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn cyllid ar gyfer y Prosiect Ffermydd Godro. Cyflwynodd Martin drosolwg cryno o ambell un o raglenni ariannu Llywodraeth Cymru, yn cynnwys Rhwydweithiau Natur. Awgrymodd Martin y gellid cynnwys eitem yn un o gyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol er mwyn crynhoi'r rhaglenni ariannu sydd ar y gorwel.

51. Dywedodd Anthony fod CNC wedi diweddaru'r wybodaeth am greu coetiroedd ar ei wefan a gofynnodd am gael manylion cyswllt y sawl sy'n arwain y gwaith hwnnw yn CNC.

***PG06 Mawrth: Marc Williams, CNC i ofyn i'w gydweithwyr pwy sy'n arwain y gwaith o ddiweddaru gwybodaeth am Greu Coetiroedd ar wefan CNC, a gofyn i'r unigolyn hwnnw gysylltu ag Anthony Geddes, Confor.***

## Eitem 5 Diweddariad gan FUW / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad / Llywodraeth Cymru

**52. FUW:** Dywedodd Bernard Griffiths, FUW fod FUW wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau, yn cynnwys yr ymgynghoriad ynghylch ail gartrefi, yr ymgynghoriad ynghylch olrhain gwastraff yn ddigidol ac Adolygiad Llwybr yr Arfordir. Hefyd, mae FUW wedi mynychu cyfarfodydd Is-grŵp Darpariaethau Coedwigaeth Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru).

53. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod NFU Cymru wedi mynd i'r afael â nifer o'r pethau y cyfeiriodd Bernard atynt. Soniodd Rachel am y llwybr tuag at Fil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weld rhagor o wybodaeth am strwythur y cynllun a'r camau a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Mae NFU Cymru yn gwneud popeth o fewn ei allu i barhau i hyrwyddo'i weledigaeth ar gyfer polisïau yn y dyfodol, sy'n seiliedig ar dri chonglfaen, sef cynhyrchiant, mesurau amgylcheddol a'r taliad cynaliadwyedd hwnnw, sydd mor angenrheidiol i gefnogi busnesau fferm yng Nghymru, ac mae wedi trefnu digwyddiad sy'n canolbwyntio'n arbennig ar ffermio tenant. Roedd NFU Cymru yn falch iawn o glywed y Gweinidog yn siarad yn y digwyddiad hwnnw ddechrau mis Chwefror, ac o ganlyniad i hynny galwodd ar i Lywodraeth Cymru sefydlu grŵp a allai roi sylw penodol i faterion yn ymwneud â thenantiaethau. Dywedodd Rachel nad yw NFU Cymru o'r farn fod y cynigion presennol yn ymdrin yn ddigonol â rhai pryderon arbennig, sef a fydd ffermwyr tenant yn cael mynediad cyfartal at gynllun yn y dyfodol. Ffordd hollbwysig o ddatrys hyn fyddai cael cyfres o gamau cyffredinol y gallai holl ffermwyr Cymru fynd i'r afael â nhw'n flynyddol yn gyfnewid am dâl. Ymhellach, mae NFU Cymru yn dechrau mynd i'r afael â gwaith yn ymwneud â thir comin yng nghyd-destun dyfodol y cynllun. Mae'r ymgyrch Tyfu Gyda'n Gilydd yn parhau.

54. **Confor:** Dywedodd Anthony Geddes fod Confor yn gweithio gyda Grŵp Cyllido'r Strategaeth Ddiwydiannol a'r archwiliad dwfn. O safbwynt rheolaeth uniongyrchol, mae Cofnor yn cymryd camau i ymdrin â phryderon yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch hawliau coedwigo ar draws asiantau a chwmnïau arolygu

coedwigaeth. Ymhellach, dywedodd Anthony fod Confor yn edrych ar ei raglen ac ar gyfleoedd gogyfer y Sioe Amaethyddol Frenhinol, yn cynnwys rheoli tir ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Cofnor yn awyddus i gael adborth ynghylch pethau penodol, ond byddai'n ddefnyddiol hefyd crybwyll pynciau o safbwynt gwleidyddol.

55. **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant:** Dywedodd Dennis Matheson fod Lloegr wedi sefydlu gweithgor o dan y Farwnes Rock er mwyn ystyried pob mater yn ymwneud â thenantiaethau ac esgor ar atebion, fel y gellir sicrhau na fydd tenantiaid ar eu colled mewn perthynas â chynlluniau rheoli tir amgylcheddol. Hefyd, mae Dennis mewn cyswllt â Llywodraeth Cymru ynghylch targedau plannu coed, oherwydd ymddengys fod yna anghysondeb yn y ffigurau a ddyfynnwyd. Dywedodd Dennis ei fod wedi mynychu cyfarfod Datganiad Ardal y Gogledd Ddwyrain yr wythnos diwethaf – roedd yn gyfarfod da a chyflwynwyd y diweddaraf am y pethau sydd ar droed. Fodd bynnag, Dennis oedd yr unig ffermwr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ac roedd hynny'n siomedig. Dywedodd Dennis ei fod wedi dod ar draws achos gwael yn ddiweddar yn ymwneud â chi yn amharu ar dda byw, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw cyfleu negeseuon i'r cyhoedd yng nghynllun Llywodraeth Cymru i gynyddu mynediad cyhoeddus.

56. **Llywodraeth Cymru:** Cyflwynodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, drosolwg byr o'r rhaglen waith ar allyriadau amonia. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid bwrw ymlaen â'r rhaglen waith hon trwy ymgynghori ag Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amgylcheddol, yn amodol ar gytundeb y Fforwm Rheoli Tir. Cytunodd Zoe mai'r Is-grŵp ar Lygredd Amgylcheddol yw'r ffordd fwyaf priodol o fwrw ymlaen â hyn.

## Eitem 6 Adborth ar Weithdai Datganiadau Ardal a Fforwm Rheoli Tir Cymru

57. Dywedodd Bronwen Martin, CNC fod gweithdai byrion ar y thema 'Datganiadau Ardal' wedi'u cynnal dros y misoedd diwethaf. Dyma gyfle i gynnal trafodaeth fer ar y sesiynau a gynhaliwyd hyd yn hyn a chasglu rhywfaint o adborth llafar gan y rhai a'u mynychodd.

58. Dros y misoedd diwethaf, trefnodd CNC gyfres o weithdai dwy awr. Roedd y rhain yn cynnwys cymysgedd o sgyrsiau, fideos a thrafodaethau. Cynorthwywyd pob sesiwn gan dimau Pobl a Lleoedd o'r chwe Datganiad Ardal tirol. Mae pob Datganiad Ardal yn nodi'r heriau allweddol sy'n wynebu ardal arbennig, yr hyn y dymunwn i bawb ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hynny, a sut gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Trwy dynnu sylw at ambell her allweddol ar draws y gwahanol Ddatganiadau Ardal, ein dymuniad hefyd oedd pennu'r materion a'r heriau cyffredin y deuir ar eu traws mewn rhannau eraill o Gymru, a pha un a oes yna gyfleoedd i ailadrodd prosiectau, cynlluniau a syniadau mewn ardaloedd eraill.

59. Hyd yn hyn, rydym wedi cynnal pedair sesiwn o blith pump, yn cynnwys coetiroedd, coed a gwrychoedd ffermydd (Ardal Canolbarth Cymru), tir comin (Ardal y De Orllewin), llethrau llon (Ardal Canol De Cymru) a rheoli llifogydd yn naturiol (Ardaloedd y Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin). Rhwydweithiau bwyd (y De Ddwyrain) fydd y sesiwn olaf yn y gyfres hon ac fe'i cynhelir maes o law.

60. Ar ôl cynnal y pum sesiwn, bydd CNC yn anfon holiadur byr at y mynychwyr er mwyn cael rhagor o adborth ar yr holl sesiynau a fynychwyd gennych; ond am y tro, hoffem gynnal trafodaeth fer yn ymwneud â'ch profiad chi o fynychu'r sesiynau hyn. Gofynnodd Bronwen i'r grŵp rannu rhywfaint o sylwadau, megis:

- Pa sesiwn neu sesiynau fu'n arbennig o ddiddorol neu werthfawr i chi?
- A ydych o'r farn fod y trafodaethau a gynhaliwyd yn ddefnyddiol ac yn ddigon manwl?
- Pa bwyntiau pwysig a ddysgwyd gennych?
- A oes yna rai pethau a aeth â'ch bryd yn arbennig (e.e. unrhyw un o'r sgyrsiau neu'r fideos a rannwyd)?
- A aethoch ati i rannu unrhyw wybodaeth a gawsoch ar ôl y gweithdy gyda'ch cydweithwyr neu eich aelodau?
- A oes yna enghreifftiau eraill o bethau ar lawr gwlad y gellid neu y dylid bod wedi eu rhannu neu eu trafod?

61. Dywedodd Zoe y dylid meddwl am y modd y gellir rhaeadru'r wybodaeth.

62. Dywedodd Dennis ei fod wedi mynychu pob un o'r sesiynau a'i fod o'r farn eu bod yn sesiynau da. Fodd bynnag, ym mhrofiad Dennis, nid oes llawer o ffermwyr na chynrychiolwyr ffermwyr yn mynychu grwpiau Datganiadau Ardal. Dywedodd Zoe y gall fod angen gwella'r gwaith cyfathrebu ar gyfer y cyfarfodydd hynny.

63. Dywedodd Hedd Pugh ei fod wedi mynychu'r gweithdai. Awgrymodd Hedd y gallai amseriad y gweithdai beri problemau i ffermwyr ac y dylid ystyried hyn ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn y dyfodol. Dywedodd Hedd hefyd mai da o beth fyddai cynnal cyfarfod yn y cnawd.

## Eitem 7 Unrhyw Fater Arall

64. Cyflwynodd John Browne ddiweddariad byr yn sôn am waith Is-grŵp Darpariaethau Coedwigaeth Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru).

65. Dywedodd Bernard fod FUW wedi mynychu seremoni wobrwyo LANTRA. Cafwyd noswaith bleserus iawn a braf oedd gweld ansawdd y bobl ifanc sy'n camu i'r diwydiant. Cyflwynwyd Gwobr Oes i Dai Jones. Wythnos yn ddiweddarach, clywyd y newyddion trist am ei farwolaeth. Dywedodd Bernard fod Dai yn gymeriad a hanner a'i fod wedi gwneud cymaint dros amaethyddiaeth a chymunedau gwledig Cymru dros y degawdau.

66. Dywedodd Hedd fod nifer o'r aelodau yn Nyffryn Dyfi yn bryderus ynghylch ailgyflwyno afancod, a gofynnodd a yw CNC yn monitro'r sefyllfa er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn cadw at reolau a rheoliadau'r trwyddedau. Dywedodd Martyn fod gwaith monitro o'r fath yn cael ei wneud os yw'r mater yn destun trwydded rhywogaethau neu amodau arbennig. Ymhellach, mae CNC yn mynd ar drywydd unrhyw adroddiadau sy'n awgrymu bod trwyddedau neu amodau wedi cael eu torri.

67. Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 6 Mehefin 2022. Awgrymwyd y dylid cynnal y cyfarfod hwnnw yn y cnawd; bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

## Diwedd y cyfarfod